LAWR DRE (Gwaith i'w wneud dros ryddid.)

Ro' ni lawr yn y dre gyda ffrind i mi
Yn crwydro'r strydoedd i weld be' wele' ni
Pan ddaeth y lorie i'n atgoffa ni
Fod gwaith i'w wneud dros ryddid.

Gyda'u golau'n llachar, a'u dreigie coch
Rhibanau melyn, a'u cyrn yn groch
Yn datgan ffolineb troi y foch
Pan fod gwaith i'w wneud dros ryddid.

Rhyddid i sefyll a rhyddid i droi
Rhyddid i aros a rhyddid i ffoi
Rhyddid i hawlio bywyd gwell
A'r rhyddid i fod ni ein hunan.

Mae'r byd yma'n fychan a'r wlad yma'n llai
Daw'r newidiade gyda'r llanw a'r trai
Does neb ond ni i dderbyn y bai
Os na chlyw'ni glychau rhyddid.

© Geraint Griffiths 2001